

Pwyllgor Cyngor Cymuned Ysbyty Ifan 10/1/19

Presennol; Cyng Wyn Jones, Dafydd Jones, Medwyn Hughes
Idris Roberts, Alun Davies, Meredydd Ellis, Gwyn Davies Arwel Jones Ellis

Ymddiheuriadau; Dim

Cod Ymddygiad;

Datgan diddordeb neu gysylltiad mewn unrhyw un o eitemau'r agenda. Neb

Cofnodion

Darllenwyd y cofnodion a'i cael yn gywir Idris Roberts yn cynnig a Gwyn Davies yn cefnogi.

Materion yn codi o'r cofnodion;

Dim newydd gyda band eang yn yr ardal, Os oes rhywun o'r gymuned am wybodaeth ychwanegol dweud wrthynt am gysylltu gyda aelodau y Cyngor Cymuned.

Grid y mynydd byth wedi ei drwsio.

Trafferthion Ty'n ffridd byth wedi eu datrus

Anfon at y Cynulliad i geisio cael ymestyn y ddwy llinell wen ar yr A5 ger Pant Glas oherwydd mae y daen yma o'r ffordd yn beryglus

Darllenwyd llythyr gan Cyng Garfild sydd gyda portfolio yn ymwneud a chludo plant i'r ysgol yn dweud fod yn rhaid gadael popeth fel y mae ac nid oedd yn awyddus i ddod i'r pwyllgor heno. Cyng Wyn Jones wedi bod mewn cysylltiad a Llyr Hughes Gruffydd, disgwyl i glywed gan Wyn beth yw ymateb Llyr .

Arian

Meredydd Ellis yn cynnig gyda Medwyn Hughes yn cefnogi talu yr isod

Talu i Gwyn Ellis

Talu am gofrestru y Neuadd pan ddaw y bil

Talu BDO £411.60

Aethpwyd trwy y budget yn ofalus, Idris yn cynnig ei fod yn gywir gyda Meredydd yn cefnogi.

Penderfynwyd gadael y preseb ar £3800 Alun Davies yn cynnig gyda Gwyn Davies yn cefnogi,

Pasiwyd fod J. Ll Hughes yn dal i edrych dros y daflen ariannol fel archwilydd mewnol

Budget Ysbyty Ifan		10/01/2019
cennin cyf	£100.00	
Ysweiriant	£400.00	
cyflog/costau	£1,000.00	
glanhau'r toiledau	£650.00	cael ad-daliad

Un Llais Cymru	£30.00	
etholiad	£300.00	
archwyliad arianol	£300.00	
torri gwair y fynwent	£700.00	
Neuadd Goffa- cyfarfodydd	£100.00	
CVSC	£20.00	
J Llywelyn Hughes	£200.00	
sgip flynyddol	£250.00	
PAYE	£125.00	
cyfanswm	£4,175.00	
llai	£650.00	ad-daliad
cyfanswm terfynnol	£3,525.00	
preseb presennol	£3,800.00	

UFA

Ffordd Pandy Coch angen llenwi tyllau

Ffordd o Cerrigellgwm i Blaen Cwm mewn cyflwr gwael iawn oherwydd fod cerbydau gyriant 4 olwyn yn ei defnyddio yn rheolaidd i chwarae.

Ffordd Tain y Maes heibio i Ty uchaf angen sylw

Gadael i sir Feirionnydd wybod fod twll dwfn yn y ffordd B4407 ar y chwith ychydig i fewn i sir Feirionnydd

Edrych i fewn i gŵyn fod llygod mawr ger y capel

Dyddiad y pwyllgor nesaf Mawrth 14fed 2019